Beibl i Blant
yn cyflwyno

Hwyl fawr,
Pharo!

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

addaswyd gan: Lyn Doerksen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2015 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd y Pharo'n flin!
Cafodd orchymyn
gan Dduw trwy
Moses i adael i'r
Hebreaid adael
yr Aifft.



Gwrthododd wneud hyn.

"Gwnewch iddyn nhw weithio'n galetach," gorchmynnodd Pharo i'w feistri gwaith.

Roedd pethau nawr yn waeth nag erioed i'r Israeliaid.

"Rhaid i chi gasglu eich gwellt eich hun. Dydyn ni ddim am ei ddarparu i chi. Ond rhaid i chi wneud yr un nifer o friciau."

Dyna orchymyn newydd y Pharo.


Fe wnaeth y meistri gwaith chwipio rhai o'r caethweision
achos doedd dim amser ...


... ganddyn nhw i gasglu'r gwellt a gwneud digon o friciau.

Cafodd Moses ac Aaron y bai am helyntion y bobl. Aeth Moses i

weddio.

“Arglwydd,”
galwodd,
“dwyt ti
ddim wedi
achub dy
bobl.”

"Fi yw'r
ARGLWYDD,"
atebodd Duw,
"ac fe wna i
eich arwain
allan o'r wlad."

Yna anfonodd
Duw Moses
ac Aaron
yn ôl at
Pharo.



Pan ofynnodd y rheolwr pwerus am arwydd gan Dduw,

trodd ffon Aaron yn neidr winglyd.



"Galwch ar fy swynwyr," gwaeddodd Pharo.

Pan daflodd y swynwyr eu ffyn ar lawr, trodd pob un ohonyn nhw yn neidr.

Fe wnaeth ffon Aaron lyncu'r gweddill. Ond daliodd Pharo ati i wrthod gadael i'r bobl fynd.

Y bore wedyn, cafodd Moses ac Aaron gyfarfod gyda Pharo ar lan yr afon.

Pan ddaliodd Aaron ei ffon allan, cafodd y dŵr ei droi'n waed gan Dduw.

Cafodd y pysgod eu lladd! Doedd pobl ddim yn gallu yfed o'r afon!

Ond aeth Pharo yn ystyfnig.
Gwrthododd adael i'r Israeliaid adael yr Aifft.

Unwaith eto, dywedodd Moses wrth Pharo am adael i bobl Dduw fynd. Gwrthododd Pharo. Anfonodd Duw bla arall.

Cafodd pob twll a chornel o'r Aifft eu llenwi gyda llyffaint.

Pob tŷ, pob ystafell, roedd hyd yn oed y poptai yn llawn o lyffaint!

"Wnewch chi weddïo drosof fi, er mwyn i Dduw gael gwared â'r llyffaint," plediodd Pharo.

"Yna fe wna i adael i'ch pobl fynd."

Ond, wedi i'r llyffaint ddiflannu, newidiodd Pharo ei feddwl. Gwrthododd ryddhau'r caethweision.

Yna, anfonodd Duw biliynau o bryfaid bach o'r enw chwain.

Roedd pob person ac anifail yn cosi oherwydd eu brathiadau, ond doedd Pharo ddim am ildio i Dduw.

Y peth nesaf oedd cymylau o bryfaid. Yna afiechyd oedd yn lladd anifeiliaid yr Eifftiaid.



Yna cornwydydd poenus. Roedd y bobl yn dioddef yn ofnadwy.



Er hyn,
roedd Pharo
yn dweud na
wrth Dduw.

Wedi'r cornwydydd,
anfonodd Duw
heidiau o
locustiaid. Cafodd
pob planhigyn
gwyrdd yn
y wlad ei
fwyta.

Yna anfonodd
Duw tri diwrnod o
dywyllwch llwyr.
Ond nid oedd y
Pharo ystyfnig
am ryddhau'r
Israeliaid.

"Rwy'n mynd i anfon un pla arall," rhybuddiodd Duw. "Tua hanner nos heno, bydd plentyn cyntaf pob teulu a phob anifail yn marw."



Dywedodd Duw wrth yr Israeliaid na fyddai hyn yn digwydd iddyn nhw - dim ond iddyn nhw baentio gwaed oen ar byst drysau eu tai.




Am hanner nos,
cododd sŵn wylo
dros yr Aifft am
fod marwolaeth
wedi taro'r
teuluoedd.

Roedd o leiaf un person wedi marw ym mhob tŷ.

"Ewch oddi yma," plediodd Pharo ar Moses.


"Ewch, gwasanaethwch
yr ARGLWYDD."
Cerddodd pobl
Dduw allan o'r
Aifft yn gyflym.

Dywedodd Duw wrth Moses am gofio Noson y Pasg,
achos bod Angel Duw wedi mynd heibio i gartrefi'r Israeliaid, a tharo Pharo a'i bobl.



Ar ôl 430 o flynyddoedd yn yr Aifft, roedd pobl Dduw nawr yn rhydd.



Cawsant eu harwain gan gwmwl yn y dydd, a cholofn o dân yn y nos.

Ond doedd Pharo ddim wedi gorffen gyda'r Israeliaid. Unwaith eto, anghofiodd am Dduw.

Unwaith eto, newidiodd ei feddwl. Casglodd ei fyddin at ei gilydd a mynd ar ôl y caethweision.

Cyn hir, roeddent wedi eu dal rhwng y clogwyni a'r môr.

“Bydd yr ARGLWYDD yn ymladd ar ein rhan,” dywedodd Moses. Symudodd at ymyl y dŵr, ac estyn allan ei law.

Gwyrth!
Agorodd
Duw lwybr
trwy'r
dŵr.

Croesodd
y bobl yn
ddiogel.

Yna, carlamodd byddin Pharo i mewn i'r Môr Coch. "Rydyn ni'n siŵr o'u dal," meddyliodd y milwyr.

Ond diflannodd y llwybr wrth i'r tonnau gau amdanyn nhw.

Cafodd byddin gref yr Aifft eu boddi.

Roedd Pharo nawr yn gwybod fod Duw Israel yn ARGLWYDD dros bawb a phopeth.

Hwyl fawr, Pharo!

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Exodus 4-15

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16